

1. Mae RWE Renewables UK Limited (RWE) yn falch o ddarparu'r nodyn hwn i lywio sesiwn dystiolaeth y CCEIC ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru ar 3 Mawrth, y bydd Cadeirydd RWE UK, Tom Glover, yn cyfrannu ati.
2. Byddem yn annog aelodau'r pwyllgor i ystyried y papur hwn ar y cyd ag ymateb ysgrifenedig blaenorol RWE i sesiwn dystiolaeth y CCEIC gyda Gweinidogion ar gynllun Sero Net Cymru Llywodraeth Cymru (ynghlwm eto er gwybodaeth).
3. RWE yw'r cynhyrchydd trydan mwyaf yng Nghymru a'r buddsoddwr mwyaf mewn ynni adnewyddadwy, ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu pedair fferm wynt ar y tir<sup>1</sup> a thair fferm wynt alltraeth<sup>2</sup>, a nifer o weithfeydd dŵr. Mae RWE hefyd yn gweithredu gorsaf bŵer Tyrbin Nwy Cylch Cyfun (CCGT) ym Mhenfro, sef yr un fwyaf effeithlon yn y DU. Mae gennym ni gyfres o brosiectau newydd yn cael eu datblygu ledled Cymru ym meysydd gwynt ar y môr (sefydlog ac arnofiol), gwynt ar y tir, storio batris a hydrogen.
4. Rydym ni'n cydnabod penderfyniad Llywodraeth Cymru (LIC) i gyflawni ei hymrwymadau sy'n gyfreithiol-rwym, a'r ymdeimlad cynyddol o frys a arweiniodd at ffocws cliriach yn y 12-18 mis diwethaf ar y rôl sydd gan y broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel i'w chwarae. Rydym ni'n croesawu sefydlu Gweinidogaeth Newid Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn etholiad 2021 y Senedd.
5. Mae RWE bob amser yn awyddus i ymateb yn gadarnhaol i ddatblygiad polisi ynni Cymru ac rydym ni wedi bod yn ddiolchgar am y lluo o gyfleoedd i wneud hynny yn ddiweddar yn ystod sesiynau tystiolaeth, ymholiadau ac ymgynghoriadau amrywiol. Gyda'r ffocws cynyddol ar y materion allweddol sy'n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel, credwn y gellir gwneud cynnydd tuag at ddatgarboneiddio ein heconomi a chyrraedd sero net.
6. Rôl Pwyllgor y Senedd yw craffu ar Lywodraeth Cymru, ond wrth wneud hynny, byddem hefyd yn annog aelodau'r pwyllgor i ystyried gwaith defnyddiol y Pwyllgor Materion Cymreig, gan gynnwys eu hadroddiad ar ynni adnewyddadwy yng Nghymru a'u hymchwiliad presennol i capasiti grid yng Nghymru<sup>3</sup>.
7. Y fenter ddiweddaraf ar lefel Llywodraeth Cymru yw Gwaith Ymchwil Manwl y Dirprwy Weinidog i ynni adnewyddadwy, y cyfrannodd RWE ato ac y cyhoeddwyd ei argymhellion ym mis Rhagfyr 2021. Fel y gofynnwyd, mae'r papur hwn, yn rhannol, yn darparu ein lefel uchel o syniadau ar yr argymhellion hynny<sup>4</sup>.
8. Hoffem i'r Pwyllgor helpu i sicrhau aelodaeth gyflawn a chyfraniadau at ymarferion megis y Gwaith Ymchwil Manwl Ynni Adnewyddadwy diweddar, i gynnwys datblygwyr ynni adnewyddadwy mawr a llai. Bydd hyn yn sicrhau bod yr heriau'n cael eu deall yn well ar gyfer pob lefel o gynhyrchu a galw yn ogystal â'r ystod lawn o fuddion a geir.

## Strategaeth

(Yn gysylltiedig ag argymhellion 1 a 2 y Gwaith Ymchwil Manwl)

9. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu datganiad mwy penodol am yr ymrwymadau y mae'n credu y mae Cymru wedi'u gwneud i fod yn allforiwr net o drydan a gynhyrchir yn adnewyddadwy. Gall Cymru fod yn llawer mwy uchelgeisiol ynglŷn â'i rôl yn helpu rhannau eraill o'r DU a thu hwnt i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ac mae'r iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd yn amwys. Er ei bod yn synhwyrol mapio'r galw lleol am ynni (i greu cynllun ynni cenedlaethol), mae 'paru cynhyrchiant ynni adnewyddadwy lleol â'r galw am ynni' yn

---

<sup>1</sup> Gorllewin Coedwig Brechfa (57.4MW) (Sir Gaerfyrddin); Coedwig Clocaenog (96MW) (Sir Ddinbych / Conwy); Mynydd y Gwair (32.8MW) (Abertawe); Rhyd y Groes (7.2MW) (Ynys Môn)

<sup>2</sup> Gwynt y Môr (576MW); Gwastadeddau'r Rhyl (90MW); Gogledd Hoyle (60MW) pob un oddi ar arfordir gogledd Cymru.

<sup>3</sup> <https://committees.parliament.uk/committee/162/welsh-affairs-committee/news/160712/grid-capacity-in-wales-inquiry-launched/>

<sup>4</sup> Rydym ni wedi dewis yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol a phwysig i ni.

anwybyddu'r rôl hollbwysig y gall Cymru ei chwarae mewn allforio trydan a'r manteision a all ddod yn sgil hynny.

10. Croesawodd RWE y cyhoeddiad diweddar yn 2021 o Strategaethau Ynni Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd a oedd yn nodi maint a chwmpas yr her ddatgarboneiddio. I atgyfnerthu'r pwynt uchod, rydym ni'n dadlau na ddylai'r strategaethau ynni hyn fod yn gyfyngedig yn ddaearyddol. Ar gyfer sicrwydd cyflenwad a fforddiadwyedd, mae mewnforio ac allforio trydan o fewn a rhwng rhanbarthau yng Nghymru (a ledled y DU a thu hwnt) yn hollbwysig, yn hytrach na chydbwysio cyflenwad a galw ar lefel leol yn unig. **Un o gryfderau allweddol Cymru yw ei gallu a'i photensial i gwrdd â'i hanghenion ac allforio trydan gwyrdd i eraill.**
11. Felly, byddem yn annog mwy o eglurder ac uchelgais ynghylch rôl Cymru fel allforiwr net trydan adnewyddadwy.

## Y Grid

(Yn gysylltiedig ag argymhellion 5 a 6 y Gwaith Ymchwil Manwl)

12. Mae diffyg argaeledd cysylltiadau grid cost effeithiol ac amserol ledled Cymru, yn enwedig mewn perthynas ag ynni ar y tir ond sydd hefyd yn fwyfwy perthnasol i'r môr, yn rhwystr difrifol nid yn unig i brosiectau ynni adnewyddadwy newydd, ond hefyd i uchelgeisiau i ddatgarboneiddio economi gyfan Cymru, ac i gyrredd targedau sero net Llywodraeth Cymru.
13. Ar y tir, mae diffyg seilwaith grid ym mhob rhan o Gymru, ond mae'r broblem ar ei mwyaf difrifol yn y canolbarth, ble mae'r cyfleoedd mwyaf niferus yn bodoli ar gyfer datblygu cynhyrchu trydan adnewyddadwy. Er mwyn i gymunedau yn y canolbarth ddatgarboneiddio, a manteisio ar bympiau gwres a cherbydau trydan, mae angen uwchraddio seilwaith grid. Bydd datblygiad pellach o ynni gwynt ar y tir yn galluogi uwchraddio seilwaith grid y mae mawr ei angen, gan hwyluso datgarboneiddio economi canolbarth Cymru drwy ddwyn ymlaen y buddsoddiad angenrheidiol.
14. Mae RWE yn croesawu'r cyhoeddiad<sup>5</sup> ym mis Medi 2021 fod Llywodraeth Cymru, Ofgem, a gweithredwyr rhwydweithiau wedi cytuno i gydweithio i ddatblygu dull strategol o gynllunio rhwydwaith nwy a thrydan. Rydym ni wedi dadlau o'r blaen y dylai'r diwydiant gael ei gynnwys yn uniongyrchol mewn cyfarfodydd, a bod yr adolygiad yn cael ei gyflawni'n gyflym. Ar hyn o bryd – chwe mis yn ddiweddarach – nid ydym yn ymwybodol bod cynrychiolydd o'r diwydiant wedi'i wahodd i gymryd rhan yn uniongyrchol mewn cyfarfodydd, ac nid ydym yn glir chwaith pa gynnydd, os o gwbl, sydd wedi'i wneud. Byddai RWE, ynghyd ag eraill yn y diwydiant, yn croesawu diweddiariad ar hyn.
15. I gydnabod y ffaith bod pwerau dros drawsyrro trydan wedi'u cadw ar lefel y DU, rydym ni'n annog Llywodraeth Cymru i archwilio pob llwybr i gydweithio'n agosach fyth â Llywodraeth y DU. Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor Materion Cymreig o ASau yn cynnal ymchwiliad cyn bo hir i gapasiti grid yng Nghymru ac rydym ni'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth iddo. Bydd RWE yn cyfrannu at y cais hwn am dystiolaeth gyda Tom Glover (Cadeirydd Gwlad y DU) yn darparu tystiolaeth a Helen K Thomas (Uwch Reolwr Rhanddeiliaid a Chadwyn Gyflenwi Cymru) yn cael ei gwahodd fel tyst. Edrychwn ymlaen at ganlyniad trafodaethau'r pwyllgor.
16. Rydym ni'n ailadrodd argymhelliad a wnaed yn flaenorol ar y mater hwn, sef, er mwyn rhoi hwb i uwchraddio seilwaith grid, yn enwedig mewn perthynas ag ar y tir yn y canolbarth - a rhoi hyder i ddatblygwyr ddatblygu prosiectau - mae RWE yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ffyrdd o roi sail ariannol i'r seilwaith, dichonoldeb grid a gwariant caniatâd sydd ei angen ochr yn ochr ag ymdrechion i sicrhau buddsoddiad rhagweladwy drwy Ofgem.
17. Rydym ni'n croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o gymhlethdod canolfannau trydan ar y môr (OTNR) a gofynion grid, yn enwedig ar gyfer gogledd Cymru (Rownd 4) ac yn y Môr Celtaidd, a'u hymrwymiad i bwysu ar Ofgem i greu Pensaer System Ynni i Gymru a fydd yn bwrw golwg dros nifer o themâu, gan gynnwys dylunio rhwydwaith alltraeth ac atgyfnerthu ar y tir ar gyfer cyfleoedd alltraeth yn y Môr Celtaidd. (Byddem hefyd yn argymhell, fodd bynnag, bod mwy o resymeg i fynd ar drywydd Pensaer System ar gyfer y DU gyfan, gan y byddai hyn yn caniatáu i brosiectau newydd gael eu datblygu yng Nghymru ond na fyddai angen datblygu'r grid yng

---

<sup>5</sup><https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datblygur-gridiau-ynni-ar-gyfer-cymru-net-sero>

Nghymru o reidrwydd, er enghraifft, cysylltu prosiectau yn y Môr Celtaidd i'r grid cenedlaethol yn Nyfnaint). Rydym ni wedi dadlau'n gyson y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei pholisïau esblygol yn cysylltu â'r angen am ddull grid alltraeth mwy cydgysylltiedig, tra'n sicrhau bod prosiectau cyfredol sy'n symud ymlaen drwy ddatblygiad yn osgoi oedi – pwynt pwysig i sicrhau momentwm yn y tymor agos, tra yr eir i'r afael â heriau'r tymor hwy. Mae'r angen am ddull cydgysylltiedig o weithredu'r grid ar y môr yn arbennig o bwysig yn wyneb y ffaith bod Môr Iwerddon yn faes allweddol ar gyfer datblygu nifer o brosiectau gwynt sefydlog a symudol ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd.

18. Byddem yn argymhell ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o roi hwb ariannol i ganolfannau trydan alltraeth fel y gall prosiectau arnofiol a phrosiectau alltraeth eraill gysylltu hefyd, er mwyn lleihau'r problemau pwynt-i-bwynt sy'n gysylltiedig â cheblau allforio lluosog a ddaw i'r lan. Gall fod ffyrdd o ryddhau gwariant datblygu a chyfalaf o bosibl trwy drosglwyddo asedau i OFTO neu'r grid. Yn fwy cyffredinol, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ar nifer y cyfleoedd datblygu yn y technolegau hyn a gweithio gyda datblygwyr a'r Grid Cenedlaethol i ddod o hyd i'r atebion arloesol cywir sy'n osgoi problemau cysylltu tebyg (oedi) i'r rhai sydd wedi digwydd ar arfordir dwyreiniol Lloegr, tra'n sicrhau nad yw amserlenni prosiectau presennol sy'n symud ymlaen (e.e. Awel y Môr) yn cael eu heffeithio'n negyddol.

### **Cydsynio, trwyddedu, a threfniadau cynghori ategol**

(Yn gysylltiedig ag argymhelliad 7 y Gwaith Ymchwil Manwl)

19. Mae RWE yn ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar nifer o'i brosiectau ar y tir ac ar y môr.
20. Cyflwynom yr achos i Lywodraeth Cymru nad oes gan CNC adnoddau priodol ar hyn o bryd (naill ai cyfanswm yr adnoddau neu ffocws yr adnodd hwnnw) i gyflawni ei swyddogaethau statudol ac anstatudol mewn modd amserol. Gall hyn achosi oedi hir a chostus i brosiectau ac mae'n arbennig o wir am y cyngor ategol sydd ei angen gan CNC ar gyfer ein prosiectau ar y tir.
21. Ar gyfer ynni alltraeth, cyflwynom yr achos, o gymharu â phrosiectau mewn rhannau eraill o'r DU, fod y rheini yn nyfroedd Cymru yn wynebu mwy o risg o gydsynio ac anfantais gystadleuol. Yn wahanol i Loegr, nid yw Trwyddedau Morol Cymru yn cael eu hystyried o dan Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ond fe'u pennir ar wahân. Ar hyn o bryd, **nid oes amserlen glir i CNC benderfynu ar Drwyddedau Morol ar gyfer DCOau** a'r mater hwn ar hyn o bryd sy'n peri'r perygl mwyaf i'r rhaglen gyflawni ar gyfer prosiect Awel y Môr RWE sydd â photensial i fod yn un o'r buddsoddiadau seilwaith mwyaf yng Nghymru ers degawdau a chyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru cyn 2030.
22. Mae RWE felly'n falch o fyrdwn cyffredinol argymhelliad 7 y Gwaith Ymchwil Manwl sydd â'r potensial i wella capasiti ac adnoddau CNC (7b) a rhoi hyder i ddatblygwyr ar amserlenni trwyddedu morol (7a). Nodwn fod yr amserlenni a osodwyd ar gyfer cwblhau'r gwaith/adolygiad hwn yn fuan; gwanwyn 2022 yn achos 7b a haf 2022 yn achos 7a.

### **Cyfleoedd i gynyddu Ynni Cymunedol a Lleol yng Nghymru**

(Yn gysylltiedig ag argymhellion 14-17 y Gwaith Ymchwil Manwl)

23. Mae'r nod o gefnogi ac annog prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yn briodol. Mae maint yr her i brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yn sylweddol, ac mae rhai o'r heriau a wynebir gan y sector yn debyg i'r rhai a wynebir gan ddatblygiadau ar raddfa fawr, yn fwyaf nodedig y diffyg capasiti grid a'r costau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig ag uwchraddio'r grid.
24. Fodd bynnag, dim ond drwy ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr yn gyflym y cyflawnir y targedau uchelgeisiol i gyrraedd sero net.
25. Rydym wedi cyflwyno'r achos o'r blaen dros 'fargen y sector gwynt ar y tir', ac rydym ni'n falch o gael y cyfle i ailadrodd hynny yma fel modd o gyflawni'r uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn berchen ar fwy o asedau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.
26. Gellid cyflawni dull partneriaeth cyhoeddus/preifat ar ystâd goedwigaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y tir. Mae potensial i bartneriaethau o'r fath sicrhau buddion sy'n cyd-fynd ag ysgogwyr polisi Llywodraeth Cymru, megis perchnogaeth leol/cymunedol, ariannu buddion cymunedol, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi, cymorth i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru newid hinsawdd yn ei gwledydd partner, plannu coed yng Nghymru, ymrwymadau ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, y Gymraeg, prentisiaethau, cytundeb i gronni adnoddau a gweithio gyda gweithredwyr band eang i

fynd â rhwydweithiau cyflym i leoliadau gwledig anghysbell (ble, yn nodweddiadol, mae gwynt ar y tir wedi'i leoli), a chefnogi darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau anghysbell. Gallai hyn weithredu fel 'Bargen y Sector ar y Tir' rhwng y diwydiant a Llywodraeth Cymru.

27. Ar hyn o bryd mae amllder y tendrau ar ystâd goedwigaeth Gweinidogion Cymru yn rhy araf ac yn cael eu hysgogi gan adnoddau CNC yn hytrach na brys newid hinsawdd. Mae cyfleoedd ar gyfer gwynt ar y tir yn y canolbarth, fel y nodir uchod, wedi'u cyfyngu'n sylweddol gan y grid ac felly mae'r prosiectau hyn yn annhebygol o fod yn weithredol tan y 2030au. Y tu allan i'r canolbarth, mae mwyafrif helaeth y tir sy'n addas ar gyfer prosiectau gwynt ar y tir ar raddfa fawr ar ystâd goedwigaeth Gweinidog Cymru.
28. Mae'r model hwn o bosibl yn osgoi llawer o'r peryglon a'r anawsterau o ddefnyddio adnoddau gwerthfawr trethdalwyr i sefydlu cwmni ynni Cymreig. Rydym ni'n arbennig o bryderus y dylid canolbwyntio'r flaenoriaeth ar fynd i'r afael â newid hinsawdd, ac y byddai sefydlu cwmni o'r fath yn cymryd amser, adnoddau a sylw oddi wrth y dasg hollbwysig hon ac y byddai hefyd mewn perygl o leihau pa mor ddeniadol yw Cymru i gwmnïau preifat ac yn oedi adeiladu ynni adnewyddadwy. Credwn hefyd fod nifer o anawsterau allweddol eraill gyda'r cynnig hwn, megis:
  1. Sicrhau'r sgiliau angenrheidiol: Yn nodweddiadol, mae datblygwyr yn cyflogi rheolwyr prosiect datblygu mewnol, rheolwyr prosiectau adeiladu, rheolwyr asedau technegol, rheolwyr asedau masnachol, arbenigwyr grid, cyfreithwyr, rheolwyr ariannol, cyfrifwyr, acwstegwyr, rheolwyr eiddo, gweithwyr proffesiynol ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ati.
  2. Denu talent o'r sector preifat i Lywodraeth Cymru: Ar hyn o bryd mae'r farchnad ynni adnewyddadwy yn fywiog iawn ac mae galw mawr am sgiliau.
  3. Costau: Yn nodweddiadol, mae ~£100k/MW yn cael ei wario ar wariant datblygu a ~£1m/MW pellach ar wariant cyfalaf.
  4. Archwaeth am risg yn erbyn elw a defnydd priodol o arian cyhoeddus: Oherwydd cystadleuaeth eithafol yn y gofod ynni adnewyddadwy, mae'r enillion ar fuddsoddiadau ar eu hisaf erioed ac yn yr ardal digid sengl ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau newydd. Mae datblygwyr masnachol yn cymhwyso cyfradd athreulio i'w portffolios ac yn derbyn na fydd pob safle a nodir fel rhai a allai fod yn addas yn cael caniatâd, cael ei adeiladu a dod yn weithredol yn y pen draw. Yn wir, nid yw mwyafrif y safleoedd datblygu byth yn symud ymlaen at fuddsoddiad. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw hwn yn risg buddsoddi/proffil enillion a fyddai'n un derbynol ar gyfer cyllid cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau.
  5. Cyfiawnhad: Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fethiant yn y farchnad - mae marchnad gystadleuol weithredol, gyda datblygwyr niferus yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

## **Cyfleoedd i wneud y gorau o werth economaidd a chymdeithasol yng Nghymru**

(Yn gysylltiedig ag argymhellion 18 a 19 y Gwaith Ymchwil Manwl)

29. Mae RWE yn cefnogi'r uchelgeisiau hyn (ac wedi helpu i lunio'n rhagweithiol) syniadau Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn. Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Gymru, yn unol â math a graddfa benodol o dechnoleg. Credwn fod modelau buddion a pherchnogaeth lleol/ar y cyd yn gweithio orau ar gyfer ynni gwynt ar y tir a solar ac rydym ni'n datblygu cynigion perchnogaeth leol/cymunedol ar ein prosiectau gwynt ar y tir Coedwig Alwen a Phen March.
30. Ar y llaw arall, gall ynni gwynt ar y môr gynnig buddion lleol a rhanbarthol ar wahanol raddfa, trwy gymell buddsoddiad, ysgogi cadwyn gyflenwi leol a darparu cyfleoedd gwaith uniongyrchol ac anuniongyrchol. Ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y môr, credwn y gall y budd mwyaf i Gymru ddod o ffocws ar ehangu galluoedd gweithgynhyrchu, cadwyn gyflenwi a phorthladdoedd a seilwaith. Rydym ni wrthi'n bwrw ymlaen ag astudiaeth gyda Llywodraeth Cymru a datblygwyr ynni gwynt ar y môr eraill yn rhanbarth Môr Iwerddon i asesu'r gallu presennol a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol yn rhanbarthau'r gogledd a Chymru yn ehangach.
31. O ran sicrhau buddion i Gymru, mae RWE yn cefnogi sicrhau bod buddion lleol yn cael eu mwyhau lle bynnag y bo modd. Er enghraifft, o ran hybu datblygiad y gadwyn gyflenwi leol, mae RWE wedi bod hyrwyddo sefydlu clwstwr cadwyn gyflenwi newydd sbon ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru lle mae ein ffermydd gwynt ar y môr presennol a newydd wedi'u lleoli. Mae'r sefydliad clwstwr hwn – Y Gynghrair Ynni Alltraeth – yn 'chwifio'r

faner' dros y rhanbarth lleol, gan godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ymhlith busnesau lleol, hwyluso digwyddiadau, trafodaethau a dadansoddiadau i feithrin galluoedd ymhellach ym meysydd: gweithgynhyrchu, seilwaith porthladdoedd, y gadwyn gyflenwi, sgiliau, arloesi ac allforion.

32. Mae RWE yn annog LIC i barhau i weithio gyda ni a phartneriaid rhanbarthol eraill i ddarparu cymorth mwy ffurfiol i'r Gynghrair drwy gyllid ac adnoddau lleol, gan alluogi'r clwstwr i sicrhau buddion llawn.
33. Mae RWE yn diolch i'r Pwyllgor am y cyfle i ddarparu'r nodyn hwn ar ynni adnewyddadwy yng Nghymru, a'n barn ar rai o'r argymhellion yn yr Ymchwiliad Manwl. Edrychwn ymlaen at gyfrannu at y sesiwn ar 3 Mawrth ac at gefnogi gwaith y pwyllgor drwy gydol chweched tymor y Senedd ym mha bynnag ffordd y gallwn - drwy gyfrannu at ymchwiliadau a sesiynau tystiolaeth, neu ymweliadau â'n safleoedd ynni, pan fydd y rhain yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol.